



Gweithio gyda Phartneriaid

Cip cyflym

Gall cynghorau cymuned a thref wneud mwy o argraff ar fentrau costau byw trwy bartneru & chydweithio gydag eraill.

Trwy weithio gyda mudiadau cymunedol, busnesau, ac awdurdodau lleol mae cynghorau'n gallu rhannu adnoddau, cyfuno arbenigedd, a datblygu atebion wedi'u targedu sy'n cwrdd ag anghenion penodol eu cymunedau.

Pam ddylai cynghorau weithio gyda phartneriaid?

- Darparwch well gwasanaethau trwy gael gafael ar sgiliau, cyllid a chyfleusterau.
- Gweithiwch yn fwy Effeithlon trwy leihau dyblygu a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyrraedd ymhellach – cysylltwch â mwy o bobl trwy rwydweithiau lleol eraill.
- Datgloi cyfleoedd ariannu – mae llawer o grantiau'n ffafrio ceisiadau partneriaeth.
- Cryfhau gwytnwch cymunedol – mae gweithio gydag eraill yn gallu gwella cydlyniad cymunedol, cyfeirio adnoddau at y bobl sydd eu hangen fwyaf a grymuso cymunedau i chwarae rhan weithredol yn siapio eu gwasanaethau lleol.

Sut i Ddod o Hyd i Bartneriaid Addas:

Rhestrwch Fudiadau Lleol – dewch o hyd i grwpiau sy'n rhannu'r un diddordebau e.e. Banciau bwyd, grwpiau cymorth gydag ynni, busnesau lleol.

Cysylltwch â'ch Cymuned – holwch bobl lleol am fudiadau maen nhw'n eu hadnabod yn barod ac yn ymddiried ynddynt.

Ewch i Ddigwyddiadau & Chyfarfodydd Lleol – rhwydweithiwch gyda darpar bartneriaid.

Gyda phwy i weithio:

Mudiadau Trydydd Sector – elusennau, banciau bwyd, grwpiau cymunedol
Awdurdodau Lleol – gan fod pwysau ariannol ar wasanaethau, gall gwella'r perthnasoedd rhwng cynghorau lleol a phrif awdurdodau helpu dod o hyd i ffyrdd creadigol o sicrhau canlyniadau.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) wedi'u cysylltu'n dda ag ystod eang o grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol. Trwy weithio mewn partneriaeth â nhw, gall cynghorau tref a chymuned gyrraedd mwy o breswylwyr ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau, gan gynnwys poblogaethau anodd eu cyrraedd.

Gall busnesau lleol gyfrannu trwy fentrau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, cynlluniau nawdd, neu gyfrannu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi rhaglenni cymunedol.

Grwpiau Ffydd – yn aml iawn mae gan eglwysi, mosgiau, a sefydliadau crefyddol eraill leoedd cymunedol, gwirfoddolwyr ymroddedig, a rhwydweithiau sefydledig i helpu gyda mentrau lleol.

Gwasanaethau Iechyd – gall meddygfeydd teulu, elusennau iechyd meddwl, a mudiadau iechyd cymunedol gynnig ymyriadau iechyd, gweithdai, ac atgyfeiriadau ar gyfer pobl fregus.

Sefydliadau Addysgol – gall ysgolion a cholegau gynnig cyfleusterau, prosiectau dan arweiniad myfyrwyr, a chyfleoedd dysgu ar y cyd sydd o fudd i'r gymuned ehangach.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn annog cynghorau i gydweithio gyda chyrrff cyhoeddus a mudiadau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a mudiadau trydydd sector. Mae'r dull cydweithiol hwn yn helpu sicrhau bod gwasanaethau a mentrau yn gydnaws â'r nodau llesiant ehangach a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon.

Mae Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredydd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion, yn rhannu ei phrofiad am sut all eich Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol lleol helpu cynghorau i gael gafael ar gefnogaeth & adnoddau



Dewch o hyd i'ch Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol lleol yn [Cymorth 3ydd Sector Cymru](#)

Deddfwriaeth & Grymoedd

O dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan gynghorau lleol hawl i sefydlu pwyllgorau ar gyfer tasgau penodol, a gall y pwyllgorau hyn gynnwys pobl nad ydynt yn gynghorwyr (aelodau cyfetholedig), ar yr amod fod y cyngor ei hun yn cytuno, mae'r Ddeddf yn cynnig hyblygrwydd i gynghorau lleol gyfethol pobl ar bwyllgorau.

Gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru fanteisio ar y broses hon er mwyn cryfhau eu pwyllgorau trwy gael gwybodaeth, profiad, ac amrywiaeth ychwanegol.

Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.

admin@onevoicewales.wales

Mae Cyngor Tref Hwlfordd yn partneru gyda mwya na 15 o fudiadau o'r trydydd sector a busnesau i ddarparu eu Prosiect Bwydo'r Gymuned. Mae'n darparu lle twym i bobl leol i ddod at ei gilydd, cael pryd o fwyd am ddim, manteisio ar wasanaethau cymorth eraill, a hyd yn oed dorri eu gwallt am ddim.

Cafwyd cymhorthdal ar gyfer y prydau gan eu partner arlwy & fe gawsant eu hariannu gan y Cyngor. Darparwyd yr holl wasanaethau eraill yn rhad ac am ddim gan y Partner fudiad. Hyd yn hyn mae'r Cyngor wedi trefnu 6 digwyddiad am gost o £1000 i'r Cyngor.

Hosted by:
Councillor Randell Thomas-Turner &
Councillor Dani Thomas-Turner
Funded by: Haverfordwest Town Council

FEED THE COMMUNITY
@ Haverfrib, Quay Street, Haverfordwest

FREE Warm Space, FREE Hot Meal, FREE Activities, FREE Advice & Support, FREE Swap Shop & FREE ENTRY

14th November
12th December
16th January
13th February
13th March
ALL 2:30-5pm

SCAN the QR Code for Event Link!

IN COLLABORATION WITH: Spoonheads, Dyfed Pwera Neighbourhood Watch, The VFC Gallery, The Edge Youth Group, Carad Par Therapy, Ben & Ella Dobbie (The Sea Eaters & Caterers), L'Esport Penkiri, PAVS, Falmouth, PAVS, Sea, Hill Road, Sea, Anthony Bottoms, Neighbourhood, SPOD, PAVS & Mary Moor!

For more information, or to register your interest, email:
ri.thomasturner@gmail.com or dani.thomasturner@gmail.com

Blaenavon Town Council
Free Community Swimming at
Pontypool Active Living Centre

In partnership with Torfaen Leisure Trust we are pleased to offer a free swimming session and transport for ALL Blaenavon residents.

Monday 24th February
Coach pick up from Workmen's Hall @ 11.20am
Swimming session 12pm-1pm

Learner pool for baby & toddler session also available.
Children under 16 MUST be accompanied by an adult however children over 8 are permitted in the pool without an adult.
Booking is essential as spaces are limited.
Contact sophie.johnson@blaenavontowncouncil.co.uk or 07877 849143 for more information and to book

[@blaenavontc](https://www.facebook.com/blaenavontc) [@blaenavontowncouncil.co.uk](https://www.instagram.com/blaenavontowncouncil.co.uk) 01495 790645

Yn 2024, trefnodd Cyngor Tref Blaenafon 4 sesiwn nofio gymunedol mewn Partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen; mae'r Cyngor yn darparu cludiant ar fysiau am ddim. Manteisiodd dros 200 o bobl leol ar y cynllun. Hefyd, gweithiodd y Cyngor mewn Partneriaeth i ddarparu:

- Sesiynau Ffitrwydd Mam & Merch
- Clwb Ffilm Cyfeillio
- Sesiynau Coginio i'r Teulu Cookstars
- Grŵp Cefnogaeth Cyn Filwyr
- Sinema Awyr Agored y Gwaith Haeam
- Diwmod Treftadaeth Sain Ffagan

Gwylwch ein [Gweminar Gweithio](#) mewn Partneriaeth [Un Llais Cymru](#)



Cymorth gan [Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer yr [Argyfwng Costau Byw Hwb swyddogol Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer cefnogaeth gyda chostau byw, gan gynnwys cymorth ariannol, cymorth gydag ynni, a chynlluniau bwyd.

Mae Cyngor Tref Gorseinon yn partneru gydag archfarchnadoedd a chigydd lleol i drefnu eu prosiect bwrdd rhannu bwyd sy'n darparu pecynnau bwyd i'r teulu adeg y Nadolig

Gallech greu partneriaeth gymunedol i ddod ag unigolion & grwpiau sy'n rhannu diddordebau at ei gilydd o dan un cynllun gweithredu i redeg prosiectau i fynd i'r afael â materion penodol yn y gymuned

Mae Cyngor Tref Cwmaman yn partneru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a chyrrff cynghori yn y trydydd sector i gynnig cefnogaeth i bobl leol yn eu dyddiau Gwener y Gymuned

Cymerwch ran mewn Rhwydweithiau Rhanbarthol:

Ymunwch â fforymas neu gymdeithasau sy'n annog rhannu gwybodaeth a chydweithio.

Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Gall cynghorau cymuned a thref gofrestru gyda [Gwirfoddoli Cymru](#) i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer mentrau gwahanol a dod o hyd i gyfleoedd i bartneru gyda mudiadau gwirfoddol lleol

[Gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol & chymunedol](#)



Eisiau Gwybod Mwy?

Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:



[One Voice Wales Website](#)



CoLC@onevoicewales.wales



<https://bit.ly/3KYHftK>